**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
**26 GORFFENNAF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Mercher, 26 Gorffennaf 2023.

**YN BRESENNOL:** Allan Rainford (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Allan Marshall, Andrew Parkhurst a Linda Thomas
Aelodau cyfetholedig: Sally Ellis a Brian Harvey

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Ryan McKeown (ar ran Ted Palmer)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Glyn Banks, Gareth Owens - Prif Swyddog (Llywodraethu) a Mike Whiteley o Archwilio Cymru

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiad a Chymunedau Cadarn), Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Archwiliad Mewnol, Perfformiad a Risg, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol, Prif Gyfrifydd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Carwyn Rees a Simon Monkhouse o Archwilio Cymru.

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 21. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023.

Materion yn Codi

Roedd gwybodaeth am oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty (cofnod rhif 6) wedi cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor, ynghyd â diweddariad am weithredoedd hwyr am Strwythurau Priffyrdd (cofnod 13).

Fe nodwyd bod sylwadau ac amseroedd ateb galwadau y Cynghorydd Allan Marshall wedi cael eu cynnwys yng nghofnod rhif 8.

Cywirdeb

Cofnod rhif 18: Cadernid Seibr - Cyfeiriodd Sally Ellis at ei sylwadau am fonitro risgiau strategol. Dywedodd tra bod rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi cael ei nodi, dylai ei sylwadau am bwysigrwydd arweinyddiaeth wleidyddol drwy'r Cabinet gael eu hadlewyrchu hefyd.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd y cofnodion gan y Cynghorwyr Bernie Attridge ac Andrew Parkhurst.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid yng nghofnod rhif 18, bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 22. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2022/23

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Ddatganiad Cyfrifon Drafft 2022/23 (yn amodol ar archwiliad) er gwybodaeth yn unig ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys y cyfrifon Grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor, ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a adolygwyd yn y cyfarfod blaenorol. Byddai'r cyfnod ymgynghori agored yn ystod yr haf yn gyfle i Aelodau godi unrhyw agwedd ar y cyfrifon gyda swyddogion cyn i'r Pwyllgor dderbyn y fersiwn wedi'i archwilio terfynol i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd.

Roedd cyflwyniad yn trafod y pwyntiau a ganlyn:

- Pwrpas a Chefndir y Cyfrifon
- Cynnwys a Throsolwg
- Cyfrifoldeb am y Cyfrifon
- Cysylltiadau â Monitro'r Gyllideb
- Newidiadau i Ddatganiad Cyfrifon 2022/23
- Materion ac Effeithiau Allweddol
- Penawdau – Cronfa'r Cyngor (Refeniw), Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn, Symudiadau Arwyddocaol, Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT)
- Grŵp Llywodraethu Cyfrifon
- Y Camau Nesaf ac Amserlenni

Cadarnhawyd bod y cyfrifon drafft wedi'u cwblhau a'u cyflwyno o fewn terfyn amser Llywodraeth Cymru a oedd wedi cael ei ymestyn i ystyried cyfrifon priodol o werthusiadau asedau mewn cyfnod o chwyddiant uchel ac effeithiau'r pandemig. Roedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig terfynol wedi'i ymestyn tan 30 Tachwedd 2023.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod yr heriau o ran llunio'r cyfrifon a rhoddodd deyrnged i waith caled y tîm. O ran yr adroddiad naratif, cyfeiriodd at ddata rhaglen gyfalaf ar dudalennau 3 a 5 ac awgrymodd y byddai cymharu gwariant yn erbyn y gyllideb yn help i'r darllenwr.

Fe eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol er nad oedd cyflwyno'r data wedi newid, byddai'n cynnwys colofn ychwanegol mewn datganiadau yn y dyfodol i ddangos amrywiaethau ar draws portffolios ynghyd â diffiniad clir i eiriad penodol, megis 'asedau diymwad'.

O ran ôl-ddyledion rhent, cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i rannu eglurhad am y gwahaniaeth yn y sefyllfa derfynol a ddangosir yn yr adroddiad naratif (nad oedd yn cynnwys gordaliadau, cyn-daliadau ac ati), o'i gymharu â'r swm ar nodyn 13 sy'n adlewyrchu'r swm gwirioneddol ar y fantolen ar gyfer dyledwyr byrdymor. Er bod lefelau casglu rhent yn Sir y Fflint yn uchel, mae'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent yn genedlaethol wedi cael ei nodi fel risg coch i

gofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor ac roedd yn cael ei fonitro’n agos gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai. O ran adennill Treth y Cyngor, roedd ymagwedd gadarn y Cyngor i fanteisio ar gasgliadau, ynghyd â chefnogaeth gymesur, wedi helpu i gynnal perfformiad da gan arwain at gyfradd gasglu o 97.4% yn 2022/23, sydd yn llawer uwch na’r cyfartaledd Cymreig.

O ran y cynnydd mewn balansau gwasanaeth, fe eglurodd y Swyddog y broses gadarn i herio ac adrodd, yn cynnwys ceisiadau cario ymlaen, fel y manylir mewn adroddiadau monitro’r gyllideb yn fisol i’r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Gofynnodd Sally Ellis am gynllunio ar gyfer gofynion yn y dyfodol ar werthusiadau asedau, a chafodd wybod y byddai’r broses bresennol yn cael ei chynnal yn flynyddol, er cysondeb. Gan ymateb i gwestiynau pellach, nid oedd gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol unrhyw bryderon am gyrraedd y dyddiadau cau diwygiedig ar gyfer 2023/24. O ran lleihau arian wrth gefn Cronfa'r Cyngor a ddangosir yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, dywedodd nad oedd unrhyw newid sylweddol a bod cronfeydd wrth gefn ysgolion bellach yn lleihau ar ôl lefelau uchel yn ystod y pandemig ac roeddynt yn cael eu monitro. Gan ymateb i gais am fwy o eglurder am y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn a ddangosir ar dudalen 39, cafwyd eglurhad bod ailwerthusiad yn 2022 wedi adlewyrchu sefyllfa well ac nad oedd y ffigurau, a ddangosir ar gyfer pwrpasau cyflwyno cyfrifon, yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

O ran yr oedi gyda chyflwyno 16 polisi cyfrifo SAARh o fis Ebrill 2024, dywedodd y Prif Gyfrifydd bod y gwaith ar waith i baratoi ar gyfer y newidiadau a oedd yn ymwneud â chydnabod prydlesu yn y datganiadau ariannol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bernie Attridge at Ddatganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a gofynnodd am golli incwm oherwydd eiddo gwag. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod hyn yn cael ei gynnwys yn y ffigurau incwm net a ddangosir yn y cyfrifon, gyda mwy o fanylder am amrywiaethau arwyddocaol yn cael eu hadrodd mewn diweddariadau am fonitro’r gyllideb i’r Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu. Fe aeth ymlaen i gyfeirio at y broblem eang o ôl-ddyledion rhent sy’n gwaethygu a dywedodd fod gan y Cyngor ddarpariaeth ddrwgddyledion a fframwaith polisi cadarn adennill dyledion ar waith. Roedd ymholiad am ffigurau stoc tai gwahanol sydd wedi’u dyfynnu yn y cyfrifon a’u hadrodd i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, wedi digwydd oherwydd bod rhywfaint o’r eiddo’n wrthi’n cael eu hadeiladu.

Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst am farn am effaith ddiffygion pensiwn petai’r Gronfa Bensiynau yn dad-fuddsoddi mewn cwmnïau sydd yn ymwneud â thanwydd ffosil fel eu prif fusnes, a beth fyddai goblygiadau hynny ar gyllid y Cyngor.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i gael ymateb ysgrifenedig gan y tîm pensiynau. Byddai hefyd yn ymateb ar wahân i gwestiynau am dderbynwyr benthyciadau meddal ac yswiriant/cofrestru risg eitemau heb eu prisio yn archif y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod strategaeth dad-fuddsoddi wedi cael ei chyhoeddi a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd gyda throsolwg gan ymgynghorwyr proffesiynol ac Actiwari y Gronfa.

O ran tâl swyddogion, fe gadarnhawyd mai'r diffiniad o Uwch Swyddogion oedd y Prif Weithredwr a'r rhai sydd yn adrodd yn uniongyrchol iddo fo, a bod Nodyn 26 yn rhestru manylion Uwch Swyddogion eraill.  O ran Nodyn 28, cyfeiriodd y Cynghorydd Parkhurst at yr adran am fuddiannau swyddogion mewn busnesau sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor a dywedodd y gallai Uwch Swyddogion sydd yn adrodd yn uniongyrchol i Brif Swyddogion gael rhywfaint o ddylanwad dros eu maes o gyfrifoldeb.  Gofynnodd am fwy o dryloywder ar gyfer yr unigolion hynny yn y cyfrifon.   Byddai swyddogion yn darparu ymateb ar wahân, ynghyd â chefndir ar y gostyngiad mewn derbyniadau gan y Bwrdd Iechyd Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Nodyn 28.

Pan ofynnodd Brian Harvey am ymagwedd y Cyngor i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent, siaradodd y Prif Weithredwr am yr ystod o fesurau ymyrraeth y mae timau'n eu defnyddio i helpu pobl i aros yn eu cartrefi.   O ran ymgysylltu â'r cyhoedd, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol tra bod argaeledd y cyfrifon ariannol yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol, roedd prif negeseuon yn cael eu cyfleu am y gyllideb i dynnu sylw at sefyllfa ariannol y Cyngor.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd, fe eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod yr arfer sefydledig o adolygu gwariant nad yw'n hanfodol ar draws pob gwasanaeth bellach yn rhan effeithiol o'r broses monitro'r gyllideb.   Er nad oedd y meysydd o wariant wedi cael eu tynnu o'r gyllideb yn llwyr, roeddynt yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth tuag at liniaru pwysau costau yn ystod y flwyddyn.

Pan ofynnwyd am y cynnydd mewn ffioedd archwilio, dywedodd Simon Monkhouse bod hyn yn bennaf oherwydd y safon archwilio diwygiedig, ISA 315, a oedd angen mwy o gymysgedd sgiliau i gynnal proses gynllunio mwy manwl i archwilio'r cyfrifon.   Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf iddo gael ei weithredu, y gobaith yw y byddai ffioedd yn lleihau dros amser wrth i'r newidiadau gael eu sefydlu.   Roedd lefelau chwyddiant uchel hefyd yn ffactor yn y ffioedd cynyddol. O ran yr amserlen, roedd gwaith yn parhau i gyrraedd y terfyn amser terfynol i gymeradwyo ym mis Tachwedd ac roedd cynlluniau yn eu lle dros y tair blynedd nesaf i symud y dyddiad cau yn unol â'r blynyddoedd blaenorol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Allan Marshall at  y geiriad cyferbyniol am bwrpas yr eitem ac argymhellion.   Tynnodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol eu sylw at yr amserlen a rannwyd yn y cyflwyniad, yn cynnwys y cyfle i ofyn cwestiynau cyn i'r cyfrifon gael eu derbyn ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol ar 22 Tachwedd.

Fe awgrymodd y Cadeirydd argymhelliad diwygiedig er eglurder. Cafodd hyn ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Attridge a Parkhurst.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Datganiad Cyfrifon drafft 2022/23 (sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol); a

(b) Bod yr Aelodau'n nodi'r cyfle i drafod unrhyw agwedd ar y Datganiad Cyfrifon Drafft gyda swyddogion neu Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod archwilio, cyn i'r fersiwn archwiliedig terfynol ddod yn ôl at y Pwyllgor i'w gymeradwyo'n derfynol ar 22 Tachwedd 2023.

## 23. GWYBODAETH ARIANNOL ATODOL I DDATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2022/23

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol y wybodaeth ariannol atodol sy'n cyd-fynd â Datganiad Cyfrifon drafft 2022/23, yn unol â'r cais a wnaed yn y Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2013. Cytunodd i gynnwys colofn ychwanegol yn Nhablau 1 a 2 ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol er mwyn cymharu gwariant gyda'r flwyddyn flaenorol, yn unol â chais Sally Ellis.

Gan ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd am Dabl 2, siaradodd y Prif Weithredwr am yr heriau recriwtio mewn rhai gwasanaethau a rhoddodd sicrwydd bod proses gadarn ar waith i gymeradwyo ac adolygu apwyntiadau dros dro.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) i sylwadau am benodi Cyfreithiwr Plant a Diogelu a oedd yn swyddog arbenigol medrus i ddelio gydag ystod o faterion cyfreithiol cymhleth. Cyfeiriodd at nifer o swyddi dros dro yn ei bortffolio a benodwyd drwy ddull cydlynol i helpu i reoli'r galw am wasanaethau, yn benodol yng Ngwasanaethau Plant. Siaradodd am y camau sy'n cael eu cymryd gan y Cyngor i wella recriwtio a chadw staff a thynnodd sylw at y prinder cenedlaethol mewn swyddi megis Gweithwyr Cymdeithasol.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon am rai o'r costau oedd wedi cael eu dyfynnu a gofynnodd am y broses gymeradwyo. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd am gadernid polisïau a rheolau'r Cyngor ar benodi a chadw gweithwyr asiantaeth. Dywedodd bod recriwtio Cyfreithiwr i ddelio gyda llwythi achosion oedd yn gynyddol gymhleth yn golygu bod angen sgiliau arbenigol i sicrhau bod y broses gyfreithiol gywir yn cael ei dilyn a lliniaru unrhyw risgiau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Linda Thomas a'u heilio gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 24. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/23 A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AR REOLI'R TRYSORLYS YN YSTOD CHWARTER 1 2023/24

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys yn 2022/23 i'w adolygu a'i argymell i'r Cabinet. Rhannwyd diweddariad Chwarter 1 ar faterion yn ymwneud â Pholisi, Strategaeth ac Arferion Rheoli'r Trysorlys 2023/24 er gwybodaeth, ynghyd â'r cylch adrodd. Yn unol â'r broses arferol, byddai sesiwn hyfforddi ar gyfer yr holl aelodau'n cael ei gynnal ar 8 Rhagfyr 2023 cyn cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25.

Rhoddwyd trosolwg o adrannau allweddol yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys effaith materion economaidd a chyfraddau llog yn ystod y cyfnod. Roedd y diweddariad chwarterol cyntaf ar gyfer 2023/24 yn rhoi diweddariad ar fuddsoddiadau a gweithgaredd benthyca.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd am adran 3.02 o'r Adroddiad Blynyddol, cytunodd swyddogion i roi ymateb ar wahân i'r ffigurau gwahanol ar gyfer y ddyled newydd a ddangosir yn y tablau ar weithgarwch benthyca.

Gofynnodd Sally Ellis am y gofynion benthyca i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gweddill 2023/24. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ar y cyd â chyngor gan Arlingclose, byddai'r strategaeth i ddefnyddio benthyca byrdymor wedi'i gydbwyso gyda chyfraddau llog yn parhau, a byddai'n cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor. Yn dilyn cwestiwn pellach, fe gadarnhaodd bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynorthwyo â'r gwaith o reoli'r trysorlys.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan Sally Ellis a Brian Harvey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol drafft 2022/23, heb unrhyw faterion i'w tynnu i sylw'r Cabinet ym mis Medi; a

(b) Nodi'r diweddariad chwarter cyntaf ynglŷn â Rheoli'r Trysorlys yn 2023/24.

## 25. ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI 2021/22

Cyflwynodd Simon Monkhouse adroddiad blynyddol Archwilio Cymru am ardystio hawlio grantiau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 lle cafodd tri hawliad eu hardystio i werth £110.4m, roedd dau ohonynt angen diwygiad. Roedd yr adroddiad yn crynhoi bod y Cyngor wedi dangos trefniadau digonol i baratoi ei grantiau a chefnogi gwaith ardystio, gyda sgôp ar gyfer gwelliant wedi'i ddangos yn yr argymhellion.

Roedd y prif newid oherwydd gwall teipio ar y ffigur trosglwyddo ardrethi annomestig a oedd wedi cael ei godi gan y tîm Refeniw ar ddechrau'r archwiliad. Roedd angen mân newid i'r hawliau Budd-dal Tai a Chymhorthdal Treth yr Awdurdod oherwydd gwallau celloedd oedd â gwerth isel ac wedi'u priodoli i'r gwerth uchel a chymhlethdod prosesu hawliadau. Roedd hyn hefyd yn gymwys ar gyfer materion nad oedd modd eu meintoli'n llawn. Roedd profion gan Archwilio Cymru ar wallau a gafodd eu hadrodd yn flaenorol wedi adnabod gostyngiad sylweddol mewn mathau o wallau. Gan ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru, cytunwyd ar ymatebion rheolwyr ac roedd cynnydd ar waith. Un o'r argymhellion a awgrymwyd oedd efallai y byddai'r Cyngor yn hoffi edrych ar ddull arall i ddatrys problemau parhaus gyda system Civica. Fe nodwyd hefyd y byddai dull mwy canolog yn Archwilio Cymru hefyd yn helpu gyda darparu ffurflenni ardrethi annomestig a phensiynau athrawon ar amser.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Bernie Attridge ar amseru'r adroddiad, rhoddwyd eglurhad am y cylch archwilio ar gyfer gwaith grant oedd yn golygu bod yr eitem fel arfer wedi'i threfnu tua mis Mawrth. Roedd

amseru'r adroddiad hwn wedi cael ei effeithio gan broblemau adnoddau a phwysau yn Archwilio Cymru.

Gofynnodd Sally Ellis a oeddynt wedi cysylltu gyda Civica i ddatrys y problemau os oedd yr un system yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau eraill. Roedd y Prif Weithredwr yn ymwybodol bod swyddogion ar draws y rhanbarth wedi sôn wrth Civica am yr un problemau ac y byddai'n ceisio cael y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Attridge a Brian Harvey.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys adroddiad Ardystiad Hawl Grant ar gyfer 2021/22.

## 26. MATER YN CODI O GYFARFOD MIS MEHEFIN

Cyfeiriodd y Cynghorydd Allan Marshall at ei bryderon yr oedd wedi'u codi yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn ag amseroedd ateb galwadau ffôn. Yn dilyn hynny roedd wedi gofyn am ddata am alwadau i'r Cyngor a achosodd iddo bryderu mwy am y nifer o alwadau nad oedd yn cael eu hateb. Gofynnodd am rannu ystadegau yn rheolaidd i'r fforwm priodol er mwyn monitro perfformiad. Aeth y Cynghorydd Marshall ymlaen i awgrymu ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn a gofynnodd am ystadegau ar y nifer o weithwyr oedd yn gweithio o adref.

Awgrymodd y Cynghorydd Bernie Attridge mai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Dynol allai fod yn fforwm priodol, gyda throsolwg posibl gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ond nid oedd yn teimlo fod hyn yn rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cefnogodd y Cadeirydd hyn.

## 27. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.55pm

……………………………………..
**Y Cadeirydd**